



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwneud newidiadau i etholiadau a'n ffordd o bleidleisio

Ymgynghoriad pobl ifanc

PLEIDLAIS

PLEIDLAIS

PLEIDLAIS

PLEIDLAIS

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i gymaint o bobl â phosib gael dweud eu dweud yng Nghymru. Rydyn ni eisiau i bobl gofrestru a phleidleisio mewn etholiadau.

Mae gan Gymru system ddemocrataidd. Mae hyn yn golygu:

- bod pobl yn cael pleidleisio'n rhad ac am ddim
- bod eich hawliau i gymryd rhan a dweud eich dweud yn cael eu hamddiffyn.

Mae'n bwysig cymryd rhan mewn etholiadau. Mae yna etholiadau ar gyfer:

- y 22 cyngor lleol, bob pedair blynedd
- Cynulliad Cymru, bob pum mlynedd.

Sut mae'n gweithio

Dydych chi etholiadau ddim wedi newid rhyw lawer yn ystod y can mlynedd diwethaf:

- Mae pobl yn cofrestru â'u cyngor lleol ac yna maen nhw'n gallu pleidleisio.
- Ar ddiwrnod yr etholiad, maen nhw'n cerdded i mewn i'w gorsaf bleidleisio leol.
- Yna maen nhw'n marcio'u papur pleidleisio ac yn pleidleisio.

Mae rhai pobl yn dewis derbyn eu papur pleidleisio trwy'r post.

- Maen nhw'n marcio'u papur pleidleisio ac yn pleidleisio.
- Yna, maen nhw'n llofnodi'r datganiad, yn rhoi'r cyfan yn yr amlen ac yn ei phostio'n ôl.

Cyfraith newydd

Mae yna gyfraith newydd o'r enw Deddf Cymru (2017). Mae'n rhoi mwy o bwerau i Weinidogion Cymru dros rai deddfau a phenderfyniadau yng Nghymru.

Mae Deddf Cymru (2017) hefyd yn caniatáu inni wneud newidiadau ynglŷn â sut mae etholiadau'n gweithio yng Nghymru.

Mae'r llyfryn yma'n edrych ar rai o'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud.

Rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi fel nad ydyn ni'n gadael unrhyw beth pwysig allan.

Newid pwy sy'n cael pleidleisio

Oedran Pleidleisio

I bleidleisio mewn etholiadau mae'n rhaid ichi fod dros 18 oed. Rydyn ni eisiau cynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed hefyd.


Fe wnaeth senedd yr Alban ostwng yr oedran pleidleisio yn 2014. Fe weithiodd hyn yn dda:

- gwnaeth 75% o bobl 16-17 oed yn yr Alban bleidleisio
- dim ond 54% o bobl 18-24 oed wnaeth bleidleisio.

? Ydych chi'n meddwl y dylen ni ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau Cymru?

Ydw

Nac ydw



Dinasyddion

Mae yna reolau ynglŷn â phwy sy'n cael pleidleisio.

Gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd, fel Ffrainc neu'r Almaen

Mae pobl o wledydd yr UE sy'n byw yma'n barod yn cael pleidleisio yn ein hetholiadau ni. Dydyn ni ddim eisiau i hyn newid pan fyddwn ni'n gadael yr UE. Dydyn ni ddim chwaith yn gwybod a fydd pobl sy'n symud yma o wledydd yr UE yn cael yr un hawliau i bleidleisio ai peidio ar ôl i ni adael yr UE.

Gwledydd y Gymanwlad, fel Canada neu Awstralia

Mae pobl o wledydd y Gymanwlad sy'n byw yma'n cael pleidleisio yn ein hetholiadau ni.

Yr holl wledydd eraill, fel UDA, Rwsia neu Tsieina

Dydy pobl sy'n byw yma o wledydd o'r tu allan i'r UE ddim yn cael pleidleisio yn ein hetholiadau ni.

Mae rhai pobl o'r farn os ydych chi'n byw yng Nghymru, yna fe ddylech chi gael pleidleisio, lle bynnag rydych chi'n dod ohono.

? Ydych chi'n meddwl y dylai dinasyddion yr UE sy'n symud i Gymru ar ôl inni adael yr UE gael pleidleisio yn ein hetholiadau ni?

Ydw

Nac ydw

A ddylai pawb sy'n byw yma'n gyfreithlon gael pleidleisio?

Dylen

Na ddynlen

Oes yna unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud ynglŷn â'r adran yma?

Newid sut i gofrestru

Mae cofrestru'n golygu gwneud cais i roi'ch enw ar y rhestr sy'n caniatáu ichi bleidleisio. Y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** lleol sy'n gyfrifol am y rhestr yma.

Sut mae gwneud hyn

Eich dewis chi ydy a ydych chi'n cofrestru ai peidio. Ond fe allen ni newid pethau fel bod

- gwasanaethau fel y DVLA neu CThEM (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) yn rhannu gwybodaeth â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol
- y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu wedyn ychwanegu pobl at y gofrestr.

Fe fyddai hyn yn debycach i system gofrestru awtomatig lle mae pawb yn cael eu cynnwys.

Dydy hyn ddim yn golygu bod yn rhaid ichi bleidleisio – y cyfan y mae'n ei olygu ydy bod pawb sydd â'r hawl i bleidleisio'n cael pleidleisio.

? Ydych chi'n meddwl y dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael mwy o ffyrdd i'w helpu nhw i ychwanegu pobl at y gofrestr?

Ydw

Nac ydw

Helpu pobl i gofrestru

Fe allen ni gael staff y cyngor i helpu pobl i gofrestru mewn lleoedd fel llyfrgelloedd. Fe fyddai angen system newydd sy'n gweithio'n dda fel nad ydy manylion yn cael eu colli neu eu copïo.

Fe fyddai'r gofrestr dal dan reolaeth y Swyddog Cofrestru Etholiadol ac fe fyddai'r Swyddog dal yn gweld y newidiadau i gyd.

? Ydych chi'n meddwl y dylai staff awdurdodau lleol allu helpu pobl i gofrestru?

Ydw

Nac ydw

Cael cofrestr electronig ar gyfer Gymru gyfan

Fe allen ni greu un gofrestr electronig ar gyfer Cymru gyfan. Fe allai gwmpasu'r 22 awdurdod lleol a bod yr un fath i bawb.

? Ydych chi'n meddwl y dylen ni gael un gofrestr electronig ar gyfer Cymru?

Ydw

Nac ydw

Oes yna unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud ynglŷn â'r adran yma?



Newid y system bleidleisio

Mae yna ddwy system bleidleisio wahanol dan ystyriaeth.

System y cyntaf i'r felin.

Dyma'r system rydyn ni'n ei defnyddio yng Nghymru a'r DU.

Mae'n golygu bod pob pleidlais yn cael ei chyfrif unwaith.

Y person â'r nifer fwyaf o bleidleisiau sy'n ennill.

Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy

Mae llawer o wledydd eraill yn defnyddio'r system yma. Mae gofyn i bleidleiswyr osod yr ymgeiswyr yn y drefn y maen nhw eu heisiau.

Mae'r pleidleiswyr yn cael dewis gosod pob un, neu ddim ond rhai, yn eu trefn.

Penderfynu ar ba system i'w defnyddio

Fe allen ni ganiatáu i bob awdurdod lleol benderfynu pa system bleidleisio y maen nhw ei heisiau.

Os y byddan nhw'n newid eu system, dim ond ar ôl i ddau etholiad fynd heibio y byddan nhw'n cael newid yn ôl.



Ydych chi'n meddwl y dylai pob cyngor gael dewis ei system bleidleisio ei hun?

Ydw

Nac ydw

Tymhorau pum mlynedd

Rydyn ni eisiau newid etholiadau cynghorau lleol o bob pedair blynedd i bob pum mlynedd. Fe fyddai'r etholiad nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai 2022.




Ydych chi'n meddwl y dylai etholiadau fod pob pum mlynedd?

Ydw

Nac ydw

Oes yna unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud ynglŷn â'r adran yma?



Newid y ffyrdd i bleidleisio

Ar-lein

Mae pobl yn pleidleisio ar gyfer rhaglenni teledu a chystadlaethau trwy'r amser. Maen nhw'n defnyddio cyfrifiadur, ffôn symudol neu apiau.

Fe allen ni ddefnyddio technoleg fodern i bleidleisio mewn etholiadau. Fe allai hyn ein helpu ni i ddelio â materion yn ymwneud â diogelwch, a chael mwy o bobl i bleidleisio.

? Ydych chi'n meddwl y dylen ni newid y system bleidleisio er mwyn cael mwy o bobl i gymryd rhan?

Ydw

Nac ydw

Trwy'r post

Mae'n bosib gwneud i bawb bleidleisio trwy'r post. Mae ardaloedd eraill o'r DU wedi rhoi cynnig ar hyn ac fe wnaeth y nifer a bleidleisiodd gynyddu. Os y bydden ni'n gwneud hyn, fe fyddai angen inni newid y gyfraith fel ei bod hi'n drosedd anfon pleidlais post rhywun arall i mewn.

? Ydych chi'n meddwl y dylai cynghorau ddewis defnyddio system pob pleidlais trwy'r post ar gyfer eu hetholiadau?

Ydw

Nac ydw

System electronig

Mae gan rai gwledydd systemau pleidleisio electronig. Mae hyn yn golygu rhoi sgriniau cyffwrdd mewn gorsafoedd pleidleisio. Fe fyddai swyddogion y cyngor yn gwirio cerdyn adnabod pawb sy'n pleidleisio cyn iddyn nhw bleidleisio.

Fe fydd hyn yn costio arian. Ond, fe allai arbed amser a'r arian sy'n cael ei wario ar bobl yn cyfrif y pleidleisiau ac ar logi'r neuaddau.


? Ydych chi'n meddwl y dylai pleidleisio electronig fod ar gael?
Ydw Nac ydw

Pleidleisio o bell

Ffordd o bleidleisio ar y rhyngwrdd trwy ddefnyddio dyfais electronig ydy hon. Fe fydd gan bawb eu cod arbennig eu hunain ac mae'n eithaf hawdd i'w ddefnyddio. Mae rhai banciau'n defnyddio'r rhain yn barod i gadw gwybodaeth pobl yn ddiogel. Fe fyddai angen inni gael ffyrdd eraill o bleidleisio i'r bobl sydd ddim eisiau pleidleisio fel hyn.

? Ydych chi'n meddwl y dylai pleidleisio o bell fod ar gael mewn etholiadau lleol?
Ydw Nac ydw

Oes yna unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud ynglŷn â'r adran yma?



Newid y manau pleidleisio

Gorsafoedd pleidleisio symudol

Mae gan rai cymunedau lyfrgelloedd symudol yn barod y gallen ni eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio symudol. Efallai y byddai hyn yn helpu pobl i bleidleisio, gan gynnwys pobl hŷn sy'n ei chael hi'n anodd teithio i orsafoedd pleidleisio.

Fe fydden ni'n creu cofrestr electronig a fyddai'n cael ei diweddarau ar ôl i bobl bleidleisio. Fe fyddai hyn yn gwneud yn siŵr na fyddai pobl yn pleidleisio ddwywaith.

? Ydych chi'n meddwl y dylai gorsafoedd pleidleisio symudol fod ar gael?

Ydw

Nac ydw

Lleoedd newydd

Fe allen ni roi gorsafoedd pleidleisio mewn lleoedd y mae pobl yn eu defnyddio bob dydd. Lleoedd fel archfarchnadoedd, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden neu orsafoedd rheilffordd.


Fe fydden ni'n creu cofrestr electronig a fyddai'n cael ei diweddarau ar ôl i bobl bleidleisio. Fe fyddai hyn yn gwneud yn siŵr na fyddai pobl yn pleidleisio ddwywaith.

? Ydych chi'n meddwl y dylen ni gael gorsafoedd pleidleisio fel hyn yn ogystal â'r gorsafoedd pleidleisio sefydlog?

Ydw

Nac ydw

Oes yna unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud ynglŷn â'r adran yma?



Newid pethau i'w gwneud hi'n haws

Pleidleisio ar ddiwrnodau gwahanol ac ar fwy nag un diwrnod.

Mae etholiadau ar ddydd Iau. Mae rhai gwledydd yn cael eu hetholiadau ar ddydd Sul gan fod yna fwy o bobl adre o'r gwaith.

Fe allen ni hefyd ganiatáu pleidleisio ar fwy nag un diwrnod. Fe allai hyn helpu â'r niferoedd sy'n pleidleisio neu helpu â phethau fel tywydd drwg neu broblemau â chludiant.

? A ddylai etholiadau lleol gael eu cynnal ar fwy nag un diwrnod ac ar ddiwrnodau gwahanol i ddydd Iau?

Dylen Na ddylen

Dangos cerdyn adnabod personol

Mae cofrestru i bleidleisio'n golygu nad oes yn rhaid ichi fynd â cherdyn adnabod personol fel eich pasbort i'ch canlyn. Pan ewch chi i'r orsaf bleidleisio fe fyddan nhw'n gwybod pwy ydych chi o'r rhestr. Mae hyn yn ei gwneud hi'n hawdd i bobl ar ddiwrnod y pleidleisio.

Ond mae rhai pobl yn meddwl y byddai dod â'ch cerdyn adnabod personol yn gallu atal twyll.

Mae pobl eraill yn meddwl y byddai gorfod dangos cerdyn adnabod yn gallu atal pobl rhag pleidleisio. Yn enwedig os ydy'r cerdyn ddim ganddyn nhw ar y diwrnod.

? A ddylai pobl orfod dangos cerdyn adnabod cyn cael pleidleisio?

Dylen Na ddylen

Oes yna unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud ynglŷn â'r adran yma?



Newidiadau i sefyll mewn etholiad

Gwybodaeth am yr ymgeisydd

Cefnogi eu hardal a helpu pobl ydy'r unig beth y mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr eisïau ei wneud. Ond mae rhai ymgeiswyr yn cael eu cam-drin a'u bwlïo. Mae eu cyfeiriadau personol yn cael eu cyhoeddi. Mae hyn yn golygu y gallan nhw wynebu hyn yn eu cartrefi. Rydyn ni'n meddwl y dylai hyn newid.

? Ydych chi'n meddwl y dylen ni beidio â chyhoeddi cyfeiriad cartref yr ymgeiswyr?

Ydw

Nac ydw



Beth maen nhw'n credu ynddo

Mae'n bwysig bod pobl yn gwybod beth y mae ymgeiswyr yn credu ynddo a beth y maen nhw'n bwriadu ei wneud. Fe allai pob ymgeisydd ysgrifennu datganiad a fyddai ar-lein mewn un lle. Fe fyddai hyn yn helpu pobl i weld y gwahanol syniadau a phleidleisio â mwy o wybodaeth.

? Ydych chi'n meddwl y dylai hi fod yn orfodol i bob ymgeisydd wneud datganiad personol?

Ydw

Nac ydw

Eu plaid wleidyddol

Dydy pob ymgeisydd ddim yn perthyn i blaid wleidyddol. Mae rhai yn sefyll fel ymgeiswyr annibynnol. Mae'n rhaid i ymgeiswyr roi gwybod i bobl os ydyn nhw'n aelod o blaid wleidyddol a pheidio â sefyll fel ymgeisydd annibynnol.

? Ydych chi'n meddwl y dylai ymgeiswyr ddweud pa blaid wleidyddol y maen nhw'n perthyn iddi, os ydyn nhw'n aelod?

Ydw

Nac ydw

Oes yna unrhyw beth rydych chi eisïau ei ddweud ynglŷn â'r adran yma?

Y camau nesaf

Rydyn ni eisiau gwneud newidiadau sy'n helpu pobl yng Nghymru i gael dweud eu dweud mewn etholiadau.

Rydyn ni eisiau clywed beth ydy'ch barn chi ar hyn.

Anfonwch eich atebion i:

RLGProgramme@wales.gsi.gov.uk

erbyn 10 Hydref 2017.

